



TAG ADRODDIADAU ARHOLWYR

CYMRAEG AIL IAITH

HAF 2014

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn::

<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Uned	Tudalen
CA1	1
CA2	4
CA3	7
CA4	10
CA5	12
CA6	14

CYMRAEG AIL IAITH
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Haf 2014
Uwch Gyfrannol/Uwch
CA1

Prif Arholwr: Clive Rowlands

Sylwadau Cyffredinol

- Dymunir llongyfarch yn gynnes yr ymgeiswyr ar eu llwyddiant yn gyffredinol.
- Braf gallu cofnodi mwynhad yr arholwyr llafar wrth wrando ar y bobl ifanc yn mynd i'r afael â'r gwahanol destunau. Drwy ddygnwch eu tiwtoriaid ar draws y wlad agorir llu o brofiadau newydd iddynt yn y Gymraeg.
- Wrth longyfarch yr ymgeiswyr a'u tiwtoriaid, un gofid yw'r gostyngiad yn niferoedd yr ymgeiswyr sy'n dilyn y cyrsiau Uwch Gyfrannol ac Uwch. Gellir awgrymu sawl rheswm am hyn, ac nid y lleiaf yn eu plith yw'r ddarpariaeth bresennol o fewn y consortia niferus sy'n britho'r gyfundrefn addysg ôl 16.

CA1 Y FFILM a LLAFAREDD

- Mae mwyafrif y canolfannau'n sicrhau bod yr ymgeiswyr wedi derbyn profiadau sy'n eu galluogi i gyflawni holl ofynion y fanyleb.

Adran A Y theatr

- Bu ymgeiswyr yn gweld amrywiaeth o berfformiadau theatrig boed hynny mewn theatr benodedig neu mewn canolfannau neu ysgolion cyfagos. Cymeradwyir y canolfannau hynny oedd wedi gwahodd ambell gwmni i berfformio yn eu hysgolion.
- Roedd sawl canolfan wedi bod yn rhan o gynulleidfa fyw yn gweld ambell sioe deledu boblogaidd. Roedd yr ymgeiswyr wedi elwa o'r cyfle i sgwrsio â rhai o westai'r sioeau hyn.
- **Ysywaeth wedyn mae'n anodd deall nad oedd ambell ganolfan wedi trefnu unrhyw brofiad theatrig o'r fath i'w hymgeiswyr.**

Darlledu

- Medrai'r goreuon siarad yn synhwyrol am raglenni teledu a radio, gan gymharu rhaglenni Cymraeg â rhai tebyg yn Saesneg.
- Cyfeiriwyd at nifer o raglenni teledu a radio gan gynnwys rhaglenni chwaraeon a dramâu cyfredol.

Ffilm

- *Solomon a Gaenor, Patagonia a Branwen* oedd y ffilmiau mwyaf poblogaidd. Pwysleisir eto bwysigrwydd gwybodaeth gefndirol o'r ffilmiau penodol hyn.
- Medrai nifer drafod y themâu yn y ffilmiau, gyda'r goreuon yn gwneud hynny yn aeddfed a synhwyrol iawn. Yn sicr roedd y garfan hon wedi elwa'n sylweddol o'r arweiniad sicr a roddwyd iddynt gan eu hathrawon. Braff iawn medru cydnabod hyn.
- Rhaid ymateb i'r stori, y cymeriadau a'r digwyddiadau penodol.
- Yn gyffredinol wrth drafod y theatr, ffilmiau a'r cyfryngau, medrai'r goreuon ymestyn y drafodaeth a mynegi barn aeddfed.
- Bodloni ar yr hyn a ddysgwyd yn flaenorol oedd un o nodweddion trafodaethau'r garfan is.

Adran B Hedd Wyn

- Yn ôl yr arfer trafod *Hedd Wyn* oedd yr adran gryfaf. Gyda'r goreuon cafwyd trafodaethau clodwiw yn arddangos gwybodaeth fanwl o'r ffilm.
- Medrai'r garfan hon drafod y cynnwys, y cymeriadau, ardal Trawsfynydd, hiwmor a thristwch, enghreifftiau o eironi, symbolaeth, gwrthdaro, gwrthgyferbyniad, technegau gan gynnwys yr ôl - fflachiadau, themâu ac ymateb cyffredinol; hynny yw, holl elfennau'r fanyleb.
- Roedd y garfan is gan amlaf yn medru cyfrannu'n ddigon derbyniol. Tueddent i fodloni ar gynnig ymatebion arwynebol oedd wedi'u dysgu ymlaen llaw.

Adran C Pwnc sy'n deillio o'r ffilm

- Dyma'r adran wannaf gyda nifer ond yn cyfrannu sylwadau byr ac arwynebol. Mae ansawdd yr adran hon yn amrywiol.
- Medrai rhai ymgeiswyr drafod yn fanwl gan blethu'r gwahanol elfennau i mewn i'r drafodaeth.
- ROEDD RHAI SGYRSIAU'N GYM HAROL FYR AC YN RHY ELFENNOL. MAE ANGEN YMESTYN A MANYLU MWY WRTH DRAFOD.
- **Gofynnir i ymgeiswyr ymhelaethu ar bwnc / thema sy'n deillio o'r ffilm gan ymateb yn ôl y gofyn. Wrth drafod yr *arwr* neu *rôl y ferch*, man cychwyn y drafodaeth yw testun y ffilm cyn mynd ymlaen i ymestyn y drafodaeth.**
- Nodir eto bod angen llawer mwy o baratoi ymlaen llaw ar gyfer yr adran hon o gofio y dyfernir 15 marc ar ei chyfer.
- Diffyg manylder yw gwendid mawr yr adran hon.

Ailadroddir y gofynion canlynol i godi safonau:

Angen:

- ymateb yn estynedig i gwestiynau
- gwranddo'n ofalus ar y cwestiwn
- trafod ac ymateb i bawb yn y grŵp
- peidio â dysgu *sgript* ar y cof
- sicrhau eu bod yn deall yr hyn a ddywedir ganddynt.

CYMRAEG AIL IAITH

Tystysgrif Addysg Gyffredinol

Haf 2014

Uwch Gyfrannol/Uwch

CA2

Uwch Arholwraig (CA2): Dr Gina Morgan

Cyflwyniad

Sail yr uned hon yw cynnig cyfle i'r ymgeiswyr ehangu a mireinio eu sgiliau ysgrifenedig rhydd o fewn fframwaith ffurfiau penodol. Gwelir tystiolaeth amlwg eleni o ddatblygiad ieithyddol ymgeiswyr UG ar ôl y cwrs TGAU, yn ogystal â llwyddiant yr ymgeiswyr yn gyson i gynhyrchu cyweithiau safonol, diddorol o fewn y fframwaith hwnnw.

Testunau a Ffuriau

Roedd y pecynnau bron yn ddieithriad yn ddarllenadwy iawn, yn cynnal diddordeb o'r dechrau i'r diwedd ac yn creu naws bwrpasol. Roedd yn amlwg bod yr ymgeiswyr wedi cael arweiniad clir gan eu hathrawon sydd yn gyfarwydd â'r canllawiau a'r disgwyliadau o ran dewis testun a ffurfiau.

Llwyddodd mwyafrif helaeth y ffolios i gwrdd â meini prawf uned CA2. Rhaid canmol yr arfer dda o gynnwys cyflwyniad, nodi'r 4 ffurf a gynigiwyd, casgliad a llyfryddiaeth yng ngwaith y mwyafrif. Yn yr uned hon disgwylir i'r ymgeiswyr gyflwyno 4 darn estynedig, gyda'r cyfanswm geiriau rhwng 2,000 – 3,000 gair.

Roedd bron pob ymgeisydd wedi dewis thema Gymreig addas a'r thema honno yn gyson trwy'r gwaith. Cafwyd ambell adran ble roedd pawb wedi dewis yr un testun (e.e. yr Ardal neu Sêr Cymru) ac wedi cwblhau'r un tasgau. Cafwyd gwaith ffres fel 'Rhwyfo yng Nghymru', 'Y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru' ac 'Ystrydebau Cymreig', yn ogystal â themâu traddodiadol fel y Sioe Frenhinol, gwleidyddiaeth, cestyll, hanes ardal benodol a llenyddiaeth Gymraeg fel Merched y Mabinogion. Gwelir ôl myfyrio ac ymchwil wrth ddewis themâu felly. Mae'r amrywiaeth eang o themâu yn rhoi cyfle i'r ymgeiswyr greu gwaith gwreiddiol i'w gymharu â'r gwaith arferol ar gerddoriaeth a sêr teledu neu ffilm. Rhaid canmol yr amrywiaeth o themâu gwahanol wrth safoni, ac mae'n sicr yn rhoi dimensiwn personol i'r cyweithiau. Roedd ôl ymdrech ar y cyweithiau ac roedd yn amlwg bod y testunau'n agos at galon sawl ymgeisydd. Dyma gryfder amlwg yr uned hon.

Roedd ôl ymdrech amlwg yng ngwaith bron pob ymgeisydd; ac roedd diwyg proffesiynol yn perthyn i waith y mwyafrif. Mae bron pob ymgeisydd bellach yn llwyddo i gynhyrchu cyweithiau lliwgar, deniadol. Roedd sgiliau TGCh yr ymgeiswyr i gyd yn ychwanegu at y pleser o ddarllen y gwaith.

Ymhob pecyn bron gwelwyd tudalen gynnwys a llyfryddiaeth. Mae'n holl-bwysig cael tudalen gynnwys i **nodi'r ffurfiau gwahanol**. Mae cyflwyno rhagarweiniad i'r pecyn yn ddefnyddiol, gan roi cyfle i'r ymgeiswyr nodi eu diddordeb yn y testun dan sylw ynghyd â pham roeddent wedi penderfynu ar y tasgau unigol. Mae cyflwyno hunan-werthusiad a llyfryddiaeth yn arfer dda. Yn ogystal â nodi teitlau'r darnau yn y dudalen gynnwys, arfer dda yw nodi'r ffurfiau gwahanol hefyd, **gan ddangos yn glir y ffurfiau gwahanol**. Mae hyn yn gymorth i'r safonwr, ac yn **cadarnhau'r ffurfiau** a ddewisir.

Roedd iaith y darn dan amodau'n adlewyrchu safon gyffredinol yr iaith drwy'r tasgau eraill, ac yn ddigon heriol o ran cynnwys ac adnoddau iaith. Roedd hyd y darn dan amodau yn gyffredinol yn dderbyniol iawn, gan gyfateb yn glir i ddwy awr o waith dan amodau (500 – 700 gair). Braff oedd gweld safon iaith dderbyniol yn y darnau o dan arolygaeth. Yn gyffredinol eleni, roedd safon iaith y darnau eraill yn debyg i safon iaith y darn dan amodau arbennig, gan ategu safon iaith yr ymgeiswyr trwy'r pecyn cyfan.

Iaith a Mynegiant

Cafwyd tystiolaeth o ofal ac ymdrech gan sawl ymgeisydd i lunio darnau aeddfed gan ddefnyddio iaith greadigol megis idiomau ac iaith lafar. Rhaid canmol parodrwydd ymgeiswyr i fanteisio ar y cyfle i ysgrifennu'n bersonol, yn rhydd ac yn greadigol ar y themâu dan sylw. Yn gyffredinol roedd yr iaith a'r mynegiant o safon dderbyniol a'r goreuon yn cynhyrchu gwaith o safon uchel iawn. Gwelwyd llawer llai o gyfieithu'n electronig eleni – cam ymlaen o ran hyfforddi disgyblion wrth ddefnyddio technoleg ym maes cyfieithu / gwirio iaith.

O ran y gweiniaid, nid oedd yr iaith yn rhy sicr ac o ganlyniad cafwyd gwaith nad oedd yn llifo'n rhwydd ac weithiau ag ôl cyfieithu slafaid arno. Yr un hen gamgymeriadau gramadegol sy'n codi'n flynyddol – bod mae, rhedeg arddodiaid, y cymal enwol, terfyniad + amser berf, treigladau, ffurfiau negyddol ac yn y blaen. Roedd naws ambell i ddarn gan ymgeiswyr gwan yn rhy heriol ac o ganlyniad yn achosi mwy o broblemau mynegiant na darn llai heriol ei naws.

Asesu a gweinyddu

Yn gyffredinol roedd y gweinyddu o safon uchel gan ganolfannau. Braff iawn yw gallu darllen sylwadau pwrpasol athrawon ar waith ymgeiswyr, ac mae hyn yn bendant yn hwyluso'r gwaith safoni. Mae'n haws deall sut y penderfynwyd ar farc gan yr athro. Yn anffodus ni chafwyd sylwadau o gwbl ar waith ambell i ganolfan, a theimlir nad yw'r ymgeiswyr yn cael chwarae teg wrth safoni'r gwaith. Yn gyffredinol roedd y marciau'n weddol agos ati, ond teimlwyd bod rhai canolfannau'n rhy hael ar adegau.

Gwerthfawrogwyd manylion cefndirol i'r darn dan amodau. Roedd rhai canolfannau yn cynnwys sbardun y darn neu'r canllawiau gyda'r gwaith, ac roedd hyn o fudd i'r safonwyr.

Yn gyffredinol, roedd y gweinyddu o safon uchel iawn. Roedd y gwaith papur yn drefnus ac yn gywir, gyda'r rhan fwyaf o ganolfannau'n dilyn gofynion y gwaith gweinyddol yn berffaith.

Agweddau i'w hystyried:

- Rhaid sicrhau bod gofynion y fanyleb yn cael eu dilyn – disgwylir o leiaf **4 darn estynedig** a bod **y ffurfiau hynny** yn cael eu cynnwys yn y prosiect. Roedd rhai prosiectau'n cynnwys llawer o ddarnau byr iawn, ac er bod cyfanswn geiriau y prosiect rhwng 2,000 - 3,000 o eiriau, doedd dim llawer o gyfle i'r ymgeiswyr arddangos gafael dda iawn ar iaith. Mae holiadur yn iawn ond er mwyn sicrhau bod digon o iaith dylid gwerthuso canlyniadau'r holiadur.
- Mae angen cynnwys y **ffurfiau a nodir yn y fanyleb**. Gwelwyd rhai prosiectau lle roedd ymgeiswyr yn ysgrifennu cofnodion ac areithiau a oedd yn debyg i ofynion Cymraeg Cymhwysol (TGAU). Dylid addasu'r darnau i ateb gofynion manyleb Lefel A.

- Darn dan amodau. Rhaid sicrhau bod y darn dan amodau yn ddigon estynedig a safonol. Eto eleni, gwelwyd ambell ymgeisydd (ac ymgeiswyr cryf weithiau) yn cyflwyno darnau hynod o fyr. Dylai'r darn dan amodau adlewyrchu 2 awr o waith o ran hyd a manylder. Nid oes angen ail-ysgrifennu'r darn ar ddiwedd y dasg na theipio'r gwaith wedyn. Rhaid sicrhau hefyd bod testun y darn dan amodau yn dilyn thema'r pecyn. Cyflwynwyd rhai darnau dan amodau nad oeddynt yn berthnasol i'r testun dan sylw. Nid oedd darnau felly yn taro deuddeg bob tro a rhaid rhybuddio yn erbyn yr arfer yma.
- Rhaid sicrhau bod yr ymgeiswyr yn dewis testun **â chysylltiad Cymreig**. Gwelwyd prosiectau am sêr enwog â chysylltiad tenau iawn â Chymru, a hefyd rhaglenni teledu / diwylliant cyfoes eto heb thema Gymreig amlwg. Dylid manteisio ar y cysylltiad Cymreig i roi'r dimensiwn Cymreig i'r gwaith e.e. *Dr Who* – mae modd trafod yr ardaloedd lle ffilmwyd y gyfres, actorion o Gymru sydd wedi ymddangos yn y gyfres, llunio dyddiadur ffilmio yng Nghaerdydd a siarad am yr atyniadau sydd wedi cael eu ffilmio.
- Gwelwyd tystiolaeth ar adegau o **farcio hael** wrth bennu marciau. Rhaid dilyn y canllawiau wrth farcio a sicrhau bod gwaith gradd A yn cyrraedd y gofynion. Os yw athro/athrawes yn rhoi 35+ dylai'r gwaith a'r iaith fod o safon uchel.
- Diffyg anodi. Mae ambell ganolfan yn cyflwyno'r gwaith heb gynnwys sylwadau ar y dudalen flaen / ar y darnau unigol. Teimlir nad yw'r ymgeiswyr yn cael chwarae teg wrth safoni'r gwaith, ac mae adborth ffurfiannol hefyd yn bwysig yn y cylch dysgu. Mae anodi hefyd yn ddefnyddiol i'r safonwyr fel rhan o'r broses safoni.
- Cafwyd enghreifftiau o waith sydd yn perthyn i rannau eraill o'r cwrs e.e. adolygiad o'r ffilm *Hedd Wyn*. Dylid osgoi hyn gan fod y pwnc yn cael ei arholi yn y prawf llafar.
- Dylai'r canolfannau sydd mewn consortiwm sicrhau eu bod yn deall y broses o ddethol samplau. Os oes problem dylid cysylltu â'r swyddog arholiadau yn y canolfannau.

CYMRAEG AIL IAITH
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Haf 2014
Uwch Gyfrannol/Uwch
CA3

Uwch Arholwr: Clive Rowlands

DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH (ARHOLIAD YSGRIFENEDIG)

ADRAN A: Defnyddio'r iaith

Cwestiwn 1

- Ar y cyfan ceid brawddegau addas ac ystyrion yn cyfleu ystyrion y priod-ddulliau.
- Eleni eto mynnodd rhai ymgeiswyr anwybyddu'r cyfarwyddyd ar y papur drwy ysgrifennu mwy nag un frawddeg.
- Camddefnyddiwyd yr atalnod gan sawl ymgeisydd wrth lunio brawddegau.
- Roedd sawl un yn cymysgu rhwng *ei* gwrywaidd ac *ei* benywaidd.

Cwestiwn 2

- Cafwyd nifer o atebion cywir ond colodd rhai ymgeiswyr farciau o ganlyniad i esgeulustod llwyr – copïo'n anghywir, hepgor gofynnod ac ati.
- Defnyddiwyd ffurfiau berfol ac is-gymalau gwallus.
- Roedd y geiriau *blwydd* / *blwyddyn* yn peri problem i sawl un.

Cwestiwn 3

- Cafwyd cymysgedd o atebion ond roedd y mwyafrif wedi ysgrifennu am ddigwyddiad hapus.
- Medrai'r goreuon fanylu ar y profiad o dderbyn newyddion da yn fanwl, diddorol ac aeddfed mewn arddull ysgrifennu gwreiddiol a difyr.
- Bodlonai'r garfan is ar gyfleu profiadau cyffredinol ac annelwig heb allu dangos llewyrch o ran mynegiant.
- Roedd mân wallau yn gostwng marciau sawl ymgeisydd.

Adran B: Barddoniaeth

Cwestiwn (a): Cynnwys a chyd-destun

- Roedd carfan fechan wedi methu â dilyn cyfarwyddiadau penodol y cwestiwn; hynny yw, gosod cyd-destun y darn yn y drefn a nodir sef **cyn, ar ôl, yn**. Collid marciau sylweddol o'r herwydd.
- Ceid unigolion yn dal i ddefnyddio'r hen drefn, sef *yn y pennill cyntaf, yn yr ail bennill* ac ati.
- Yn amlwg roedd nifer helaeth o'r ymgeiswyr wedi mwynhau darllen a gwerthfawrogi'r gerdd a chynnig dehongliadau diddorol.
- Llwyddodd y goreuon i gynnwys dyfyniadau pwrpasol i gefnogi safbwyntiau.
- Nifer heb ddeall y gerdd yn llwyr a phrin iawn oedd yr ymgeiswyr a geisiodd ddadansoddi *totalitariaeth glo*.

Cwestiwn (b): Arddull

- Roedd rhai wedi anghofio ateb gofynion y cwestiwn penodol ac yn trafod arddull y gerdd gyfan.
- Cyfeiriodd y goreuon at y mesur, yr odl, hyd y llinellau, cyflythrennu, delweddau gan gynnwys dyfyniadau priodol i brofi pob pwynt.
- Cymysgu'r cynnwys a'r arddull oedd un o wendidau'r garfan is.

Cwestiwn (c): Trafod Pwnc

- Llwyddodd y goreuon i gynnig ymatebion treiddgar ac aeddfed i thema dianc, pwysau bywyd a gwaith.
- Roedd yr atebion mwyaf sylfaenol yn ymateb i destun gwyliau ar lan y môr.
- Dehonglwyd y thema mewn amryfal ffyrdd ond nifer fechan o'r ymgeiswyr a gyfeiriodd at ddianc a rhyddid.
- Roedd rhai yn mynegi barn am y gerdd heb gyfeirio at y thema o gwbl.

Gwallau iaith

Ymhlith y gwallau iaith yn yr uned hon nodir y canlynol:

- *mae nhw'n*
- *aeth* (yn hytrach nag *iaith*)
- *cymysgu ei /eu*
- *sut gwahanol* (yn hytrach na *mor wahanol*)
- *helpu fy (fi)*
- *mae dim odl*
- sillafu *anffodus*
- *felly (fel)*
- *dynnu (dyfyniad)*
- amserau'r ferf / ffurfiau person berf
- cymalau enwol / adferfol gwallus

Ailadroddir y gofynion canlynol i godi safonau

Angen:

- defnyddio brawddegau cymhleth wrth egluro ystyr priod-ddulliau – cwestiwn 1
- ailysgrifennu'r frawddeg yn gyflawn wrth gywiro – cwestiwn 2
- bod yn ofalus wrth ddarllen y cyfarwyddiadau / canllawiau yn y dasg ysgrifennu personol – cwestiwn 3
- dilyn y strwythur cywir yn y cwestiwn cyd-destun – cwestiwn 4(a)
- trafod arddull: y mesur, hyd y llinellau, odl, cyflythrennu, iaith, delwedddau – cwestiwn 4(b)
- ymateb yn bersonol i'r testun – cwestiwn 4(c).

CYMRAEG AIL IAITH
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Haf 2014
Uwch Gyfrannol/Uwch
CA4

Uwch Arholwr: Clive Rowlands

Y DDRAMA A LLAFAREDD

Adran A Y Diwylliant Cyfoes Amlgyfrwng

- Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi gweld trawstoriad o berfformiadau theatrig. Medrai'r goreuon gyfeirio at y cynnwys a'r gwahanol rinweddau yn y sioeau.
- Fel yn CA1 gwylwyd amrywiaeth o raglenni teledu gan gynnwys y dramâu diweddaraf.
- Wrth drafod ffilmiau medrai'r goreuon gymharu'r rhai Cymraeg â ffilmiau Saesneg ac Americanaidd.
- Cafwyd sawl trafodaeth ddigon diddorol ar y cylchgronau. Medrai'r goreuon drafod erthyglau o gylchgronau megis *Go!wg* a'u dadansoddi gan fynegi barn ar y cynnwys. Cyfeiriai eraill yn synhwyrol at *Lingo*. Medrai'r garfan is gyfrannu'n elfennol at yr hyn roeddent wedi ei ddarllen.
- Yn gyffredinol dyma'r adran wannaf i nifer gan mai arwynebol a thenau oedd y trafodaethau gan amlaf.

Adran B Siwan

- Dyma'r adran gryfaf. Cafwyd atebion aeddfed a hyderus gan y goreuon. Medrent ymestyn y drafodaeth a mynegi barn. Trafodwyd y cynnwys, y cymeriadau, y gwahanol olygfeydd, gwrthdaro, gwrthgyferbyniad, eironi, symbolaeth, y themâu ynghyd â'r cefndir hanesyddol.
- Medrai'r garfan gryfaf gymharu rôl a chymeriad Siwan ac Alys a thrafod perthynas Siwan â Llywelyn yn ddeallus iawn.
- Mae'n galonogol nodi bod nifer fawr o'r garfan is yn medru ymateb gan drafod pob un o'r pwyntiau bwled sy'n ymddangos yn *Nodiadau i Athrawon*.
- Ar yr un pryd arwynebol a chul oedd astudiaeth sawl un o'r ddrama.

Adran C Asesiad Synoptig

- *Cariad a chyfrifoldeb* oedd y pynciau mwyaf poblogaidd y tro hwn, gydag eraill yn trafod *unigrwydd, gwrthdaro, Cymru a rôl y ferch*.
- Medrai'r goreuon gysylltu'r themâu â'r themâu a geir yn y llenyddiaeth a'r ffilmiau a astudiwyd. Medrent siarad amdanynt yn ddeallus gan gyfeirio'n ddeheuig iawn at y gwahanol destunau.
- Roeddent yn croesgyfeirio'n fedrus at ffilmiau, trawstoriad eang o gerddi a'r straeon byrion.
- Serch hynny, gan amlaf, trafod arwynebol a gafwyd gan nifer heb fawr o ddyfnder i'r drafodaeth. Yn aml cyfeiriwyd at un gerdd neu un stori yn unig.
- **Awgrymir y dylai'r ymgeiswyr ganolbwyntio ar un thema sy'n cwmpasu maes eang lle gellid dod â'r llinynnau ynghyd.**

Ailadroddir y gofynion canlynol i godi safonau

Angen:

- cydadweithio o fewn grwpiau
- ymateb i gyfraniadau eraill yn y grŵp
- gwybodaeth o bob cydran gan gynnwys y farddoniaeth, y straeon byrion, y ddrama a'r ffilmiau
- y defnydd cywir o eirfa e.e. bardd / barddoniaeth.

CYMRAEG AIL IAITH
Tystysgrif Addysg Gyffredinol

Haf 2014

Uwch Gyfrannol/Uwch

CA5

Uwch Arholwr: Clive Rowlands

Y STORI FER A THRAWSIEITHU

Cwestiwn 1: Y Stori Fer

(i) Cynnwys

- Yn gyffredinol cafwyd atebion da yn y rhan hon. Roedd yr ymgeiswyr yn gwybod y stori, enwau'r cymeriadau a'r prif ddigwyddiadau.
- Medrai'r goreuon osod yr holl fanylion yn y drefn gywir tra roedd eraill yn nodi'r digwyddiadau heb boeni llawer am y drefn.
- Gwelid rhai ymgeiswyr yn datgan barn am bob rhan o'r stori. Ni ddisgwylir hyn.
- Gwendid ambell ateb oedd cymysgu ffeithiau a chymysgu enwau cymeriadau yn enwedig yr adroddwraig a Martha, a Mr Tremeer a'i fab Peter.
- Roedd gwybodaeth nifer o ddiwedd glo'r stori braidd yn ansicr.
- Roedd diffyg adnoddau iaith yn amharu ar safon gwaith rhai ymgeiswyr ond roedd nifer hefyd wedi ysgrifennu'n syml ac wedi llwyddo i ail ddweud y stori mewn modd deallus.

(ii) Arddull

- Roedd nifer yn trafod arddull y stori gyfan yn hytrach na thrafod arddull y darn dan sylw.
- Llwyddodd y goreuon i gyfeirio at nifer o nodweddion y darn megis y person cyntaf, naws bersonol, amrywio hyd y brawddegau, disgrifiadau byw, defnydd y dafodiaith, llunio sefyllfa fyw a gweladwy, cyflythrennu, gwrthgyferbyniad, rhestru ac ail adrodd.
- Ychydig a lwyddodd i gynnwys enghreifftiau.
- Roedd cyfyngiadau ieithyddol a gwallau iaith yn amharu ar y mynegiant.

Cwestiwn 2: Trawsieithu

- Roedd y mwyafrif wedi deall yr erthygl ac yn gallu ymateb mewn rhyw fodd.
- Cafwyd ymatebion hyderus gan y goreuon yn ogystal ag atebion aeddfed ac ystyrllon mewn iaith raenus. Roeddent wedi cynllunio'r gwaith ac wedi ychwanegu paragraff clo gan grynhoi'r ffeithiau a'u barn.
- Gallai'r goreuon fynegi barn mewn modd aeddfed.
- Llwyddodd y mwyafrif i ysgrifennu llythyr gyda pharagraff agoriadol safonol.
- Roedd y goddefol a chystrawen y genidol yn peri cryn broblem i sawl ymgeisydd.
- O ran iaith, y prif wendid yw ceisio cyfieithu'r darn o dan sylw yn slafaid.

Gwallau iaith

Ymhlith y gwallau iaith yn yr uned hon nodir y canlynol:

- *bod mae*
- *bod dylai*
- *bod rydyn / bod roedd*
- *gan* (yn hytrach nag *erbyn*)
- *y gorffen i stori*
- *ei fab o Peter (mab Peter)*
- *yn y dechrau y stori*
- *y Llywodraeth Cymraeg*
- *mae'r Llywodraeth Cymru*
- *yn gwneud nhw (yn eu gwneud)*
- *tri meibion*
- *rhy gormod*
- *cael / gan / wedi*
- *mae nhw*
- *mae e ddim*
- *roedd fi*
- *siarad i*
- *mae'r plismon ydy*
- *ble mae'r gwastraff yn dod o?*
- *ers blynedd*

Ailadroddir y gofynion canlynol i godi safonau

Angen:

- gwybodaeth gywir o gynnwys pob stori a'r cymeriadau – cwestiwn 1(i)
- strwythur eglur wrth lunio ateb – cwestiwn 1(ii)
- trafod nodweddion arddull y darn ar y papur yn unig – cwestiwn 1(ii)
- cynnwys enghreifftiau o'r darn wrth drafod yr arddull – cwestiwn 1(ii)
- peidio â chyfieithu wrth ateb y cwestiwn trawsieithu – cwestiwn 2
- defnyddio patrymau iaith syml – cwestiwn 2.

CYMRAEG AIL IAITH
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Haf 2014
Uwch Gyfrannol/Uwch
CA6

Uwch Arholwr: Clive Rowlands

**DEFNYDDIO'R IAITH A GWERTHFAWROGI BARDDONIAETH
(ARHOLIAD YSGRIFENEDIG)**

ADRAN A: Defnyddio'r iaith

Cwestiwn 1 (i)

- Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi llwyddo i ysgrifennu brawddeg ar gyfer pob berf ond nid oedd pob ymgeisydd oedd yn dilyn cyfarwyddyd y cwestiwn, sef **Dechreuwch bob brawddeg gyda'r ffurfiau canlynol.**
- Roedd rhai yn copïo'n anghywir o'r papur cwestiwn.
- Cafwyd ambell enghraifft o ymgeisydd yn newid y ferf!
- Gwallau bach oedd yn colli marciau'n aml fel y llynedd, megis camgymeriadau sillafu a threiglo.
- Yn fynych nid oedd ymgeiswyr yn arddangos eu bod yn gwybod union amser y ferf trwy ychwanegu *ddoe, yfory, neithiwr, llynedd* ac ati.
- Camddefnyddiwyd *bues* gan y mwyafrif yn (dd).

Cwestiwn 1 (ii)

- Ar y cyfan cafwyd atebion da.
- Anghofiodd sawl un yr *yn traethiadol* yn (c).
- Syndod gweld gwallau wrth ddefnyddio *pan oedd* yn (ch).

Cwestiwn 2

- Roedd y goreuon yn ysgrifennu'n gywir ac yn glir.
- Collwyd marciau o ganlyniad i wallau esgeulus a diffyg gofal.
- Ysgrifennodd rhai y *ateb* yn (i).
- Lloriwyd nifer gan yr amodol yn (ii).
- Gwelid *clywedodd* yn hytrach na *clywodd* yn (iii).

ADRAN B Barddoniaeth

Cwestiwn (a) Cynnwys

- Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi deall y gerdd ac wedi strwythuro'r ateb yn dda.
- Roedd strwythur eglur i waith y goreuon, sef nodi:

*Yn y pennill cyntaf
Mae'r bardd yn agor
Yn yr ail bennill
Wedyn
Yn y pennill nesaf
I gloi
Ar ddiwedd y gerdd
Yn y trydydd pennill*

- Roedd yr ymgeiswyr hyn yn gallu ysgrifennu cynnwys y gerdd a syniadau'r bardd yn eu geiriau eu hunain, ac yn hynny o beth roeddent yn dangos eu dealltwriaeth o'r gerdd yn ddigamsyniol.
- Dilynodd y goreuon batrwm pendant wrth ddadansoddi'r gerdd fesul pennill.
- Prif wendid nifer oedd hepgor y ffaith mai gofyn cwestiwn am ein hawl ni i wneud y fath weithgareddau mae'r bardd drwy'r gerdd yn hytrach na gosod cyfres o ddatganiadau.
- Roedd y garfan is:
 - (i) wedi camddeall y gerdd yn llwyr
 - (ii) wedi methu ysgrifennu'n drefnus
 - (iii) yn dangos nad oedd yr adnoddau ieithyddol angenrheidiol ganddynt
 - (iv) yn ysgrifennu gormod mewn iaith wallus.

Cwestiwn (b) Arddull

- Cafwyd atebion da / da iawn gan y goreuon. Roedd nifer fawr o'r ymgeiswyr yn defnyddio'r ieithwedd briodol i drafod techneg ac arddull, ac roedd y goreuon yn cefnogi eu sylwadau gyda rhesymau/enghreifftiau o'r gerdd.
- Medrent nodi prif elfennau'r gerdd – gwers rydd, saith pennill a dwy linell, dim odl, ailadrodd, cyflythrennu, cwestiynau rhethregol, un trosiad.
- Byddai ymgeiswyr yn elwa o ddilyn patrwm pendant wrth drafod arddull, hynny yw, trafod ffurf y gerdd ac yna'r prif elfennau.
- Roedd canran o'r ymgeiswyr yn arddangos nad oeddynt yn hyddysg nac yn hyfedr yn eu defnydd o'r geiriau allweddol, er enghraifft *odl*, *ailadrodd*, *cwestiynau rhethregol*, *trosiad*, *delwedd* ac yn aml roedd y sillafu'n wallus. Mae'n rhaid dyfynnu enghraifft o'r gerdd a hefyd esbonio pam mae'r bardd wedi cynnwys y dechneg.

Cwestiwn (c) Synoptig

- Fel y llynedd y gwendid pennaf ydy diffyg croesgyfeirio. Roedd yr ymgeiswyr yn sôn am nifer o enghreifftiau o *gyfrifoldeb yr unigolyn* ond (i) nid oeddynt wedi croesgyfeirio a (ii) doedd y math o gyfrifoldeb roeddynt yn cyfeirio ato ddim yn amlwg yn y gerdd.
- Roedd rhai wedi ysgrifennu am *gyfrifoldeb* yn unig ac eraill wedi dewis thema hollol amherthnasol, heb ystyried y cwestiwn ar y papur arholiad o gwbl.
- Mae digon o enghreifftiau yn y fanyleb gellid cyfeirio atynt:
 - (i) *Ailgylchu*
 - (ii) *Ffatri'n Cau*
 - (iii) *Hedd Wyn*
 - (iv) *Siwan*
 - (v) *Gail Fu Farw*
 - (vi) *Pwy fyth a fyddai'n fetal*
 - (vii) *Mae gen i freuddwyd*
 - (viii) *Angladd yn y Wlad*
- Mae'r ymgeiswyr ar y brig wedi cael profiadau da, digon o ymarfer ac wedi cael eu trwytho yn y strategaethau y maent yn gallu galw arnynt i ateb unrhyw ofyn.
- Gwelwyd yng ngwaith y goreuon ambell em ddisglair – dyfynnu addas, dadansoddi treiddgar a chroesgyfeirio ystyrion â'r cyfrifoldeb penodol a drafodwyd yn y gerdd *Hawl*.
- Llwyddodd y goreuon i blethu'r cysyniadau'n gelfydd yn eu gwaith gan greu atebion aeddfed a threiddgar.
- Tuedd y gweiniaid ydy rhestru enghreifftiau o gyfrifoldeb ar hap heb geisio eu cysylltu â'r gerdd na'r thema benodol.

Gwallau iaith

Ymhlith y gwallau iaith yn yr uned hon nodir y canlynol:

- *y barddoniaeth / yr gerdd* (y fannod)
- *bod y bardd yn cael* (meddiant)
- diffyg treiglo ar ôl arddodiaid
- y genidol yn wallus iawn
- ffurfiau / defnyddio'r amhersonol
- defnyddio brawddegau pwyslais
- rhedeg arddodiaid – *i, wrth, ar, am*
- defnyddio *yn eisiau*
- anhawster defnyddio prif lythrennau, e.e. enw bardd, cerddi a straeon
- anhawster defnyddio geiriau allweddol megis *cyfrifol / cyfrifoldeb*

Ailadroddir y gofynion canlynol i godi safonau

Angen:

- darllen cyfarwyddyd y cwestiynau iaith yn ofalus – cwestiwn 1(i) 1(ii)
- gofal wrth gyfieithu pob elfen – cwestiwn 2
- nodi cynnwys y gerdd fesul pennill – cwestiwn 3(a)
- cysondeb wth enghreifftio nodweddion arddull y gerdd – cwestiwn 3(b)
- dewis a dethol yn y cwestiwn synoptig yn hytrach na rhestru enghreifftiau ar hap – cwestiwn 3(c)
- cyfeirio'n gyson at y gerdd wreiddiol – cwestiwn 3(c).



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk